



Date issued: 21 Rhagfyr 2018

Archwiliadau Cyngor Cymuned

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'r cais am wybodaeth a wnaethoch ar 27 Tachwedd 2018, yn gofyn am wybodaeth ynghylch Archwiliadau Cyngor Cymuned.

Er hwylustod i chi, rydw i wedi cynnwys eich cwestiynau isod cyn amlinellu ein hymateb.

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth faint o Ffurfenni Blynyddol 2017/18 cyngorau cymuned / tref Cymru ddaru BDO archwilio ar ran ACC?

Ar hyn o bryd mae BDO yn archwilio datganiadau ariannol 2017-18 ar gyfer 348 o gynghorau cymuned neu dref yng Nghymru

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth faint o gynghorau cymuned / tref Cymru ddaru anfon copi o restr etholwyr at BDO fel ymateb i Atodiad 4.

Gofynnwyd i gynghorau cymuned a thref ddarparu tystiolaeth o nifer yr etholwyr yn ardal eu cynghorau, ac mae dyfyniad o'r gofrestr etholiadol yn darparu tystiolaeth addas o rifau. Pan dderbynnir tystiolaeth addas, mae BDO yn cofnodi hyn ar gronfa ddata ac mae cofnodion yn dangos bod 276 o gynghorau tref neu gymuned yn darparu tystiolaeth addas. Nid yw 72 o gynghorau wedi darparu'r wybodaeth, ac ymhlith y rhain mae 54 o archwiliadau wedi cael eu cwblhau.

Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth am y math o dystiolaeth a ddarperir yn cael ei chofnodi ar y gronfa ddata ac y byddai'n angenrheidiol gwirio cofnodion unigol yr holl gynghorau tref neu gymuned i ddod o hyd i'r wybodaeth hon. Gan fod yna 276 o archwiliadau ar gynghorau tref neu gymuned, byddai'n cymryd cryn dipyn yn fwy nag 18 awr i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Nid oes raid i ni dreulio mwy nag 18 o oriau (fel y'i pennir gan Reoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn Priodol a Ffioedd) 2004) i gasglu gwybodaeth o'r fath ac felly bydd adran 12 (2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn berthnasol.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cyngor cymuned penodol (neu gynghorau), rhowch wybod i ni gan y gallem ddelio â hyn o fewn y terfyn amser perthnasol.

Os hoffech gwyno am y modd y cafodd eich cais ei drin, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr y Gyfraith a Moeseg, drwy e-bost at martin.peters@archwilio.cymru neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid imi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac o dan yr adran hon gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a gafodd eich cais ei drin yn unol â'r Ddeddf. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745

Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl ichi fod wedi dihysbyddu ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn ymdrin â chais o'r fath. Ceir rhagor o ganllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog gwybodaeth